LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Esther Fleming

LLEOLIAD: Llangefni, Ynys Môn

Y SWYDD: Theatr Ieuenctid Môn – Tiwtor

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Dwi wedi bod yn rhan o Theatr Ieuenctid Môn ers i mi fod yn ifanc, boed o'n gwylio sioeau neu berfformio fy hun. Yn ystod yr amser yma, dwi wedi bod yn ffodus i gael fy nysgu gan sawl tiwtor gwahanol ac ers i mi fod yn fach, rydw i wedi bod eisiau gallu dysgu plant eraill i gael yr un profiad a fi.

Rydw i hefyd yn mwynhau perfformio, a bob tro'n chwilio am gyfleoedd i allu datblygu fy sgiliau, nes i weld y cyfle yma gyda proseict Llwyddo'n Lleol i fod yn diwtor 'dan hyfforddiant, ac roedd o'n teimlo fel cyfle perffaith i mi.

BETH WYT TI'N EI WNEUD?

Dwi'n astudio yn y chweched dosbarth yn yr ysgol, felly dwi'n helpu gyda gweithgareddau ar ôl ysgol neu ar benwythnosau fel arfer. Mae lot o fy nhasgau o'r swydd yn ymwneud efo hwyluso'r sesiynau, dwi'n helpu'r plant i berfformio, dysgu llinellau, ond hefyd dwi'n helpu nhw fagu hyder drwy hwyluso ychydig o gemau a *icebreakers*. Ar y funud, rydan ni'n paratoi ar gyfer sioe yn mis Mai, felly mae llawer yn mynd ymlaen i helpu'r plant ddysgu eu sgript a helpu nhw berfformio.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI'I GAEL?

Nes i ddechrau'r gefnogaeth hefo Llwyddo'n Lleol yn mis Medi blwyddyn ddiwetha', ac mae'r profiad wedi bod yn wych. Dwi wedi cael lot o hyder, yn enwedig o ran gweithio efo plant a bod mewn sefyllfa dysgu. Dwi'n teimlo fy 'mod i yn rhan o gymdeithas arbennig yn Theatr Ieuenctid Môn, mae wedi fy helpu i tuag at fy ngham nesaf a dwi'n mwynhau gallu cyfarfod pobl newydd.

Yn y dyfodol, dwi'n gobeithio byddai'n gallu parhau gyda dysgu pobl a phlant, ond dwi hefyd yn hoffi'r syniad o berfformio. Mi aeth yr ysgol ar drip i Lundain i weld *Wicked* yn ddiweddar, ac mi wnes i wirioneddol fwynhau'r profiad – felly pwy a ŵyr!

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government